# Offerynnau

Dyma focs o offerynnau
Rhythmau, nodau, a phob math o synau
Ymuna 'da'n cerddorfa ni
Pa offeryn yr hoffet ti?

Beth am chwarae'r tambwrîn crwn?
Pwy sydd eisiau taro'r drwm?
Dwi'n hoffi sŵn telyn â'i thannau di-ri
A sŵn bach doniol gan yr iwcalili

Offerynnau o bob maint a phob siâp
Bwm, tinc, strym, ting a ling, clap, clap!
Offerynnau o bob maint a phob siâp
Bwm, strym, ting a ling, clap!

Beth am chwarae'r seiloffon?
Pwy sydd eisiau chwythu'r corn?
Dw i'n hoffi sŵn gitâr drwy'r microffon
A'r sŵn dwfn swynol sy'n dod o'r trombôn.

Offerynnau o bob maint a phob siâp
Bwm, tinc, strym, ting a ling, clap, clap!
Offerynnau o bob maint a phob siâp
Bwm, strym, ting a ling, clap!

**Offerynnau / Intruments**

| | |
|---|---|
| offeryn | instrument |
| tambwrîn | tambourine |
| drwm | drum |
| telyn | harp |
| iwcalili | ukelele |
| seiloffon | xylophone |
| corn | horn |
| gitâr | guitar |
| trombôn | trombone |

**Sain / Sound**

| | |
|---|---|
| rhythmau | rhythms |
| nodau | (musical) notes |
| sŵn | sound |
| synau | sounds |
| thannau (tannau) | strings |
| strym | strum |
| clap | clap |
| dwfn | deep |
| swynol | entrancing |

**Geirfa gyffredinol / General vocabulary:**

| | |
|---|---|
| focs (bocs) | box |
| cerddorfa | orchestra |
| crwn | round |
| taro | beat |
| doniol | funny |
| maint | size |
| siâp | shape |
| chwythu | blow |
| microffon | microphone |

**Patrymau iaith / Language patterns:**

Pa offeryn yr hoffet ti?
Which instrument would you like?

| | |
|---|---|
| Beth am chwarae'r …? | Shall we play the..? |
| Pwy sydd eisiau …? | Who wants …? |
| Dw i'n hoffi … | I like … |

© 2025 S4C